# Proses Cofrestru

*Cliciwch ar yr eiconau i gael rhagor o wybodaeth am bob adran

Mynychu Sesiwn Briffio

Cwblhau eich Hyfforddiant Cyn-gofrestru Hanfodol

Ysgrifennu eich Polisïau a Gweithdrefnau

Creu eich Cyfrif AGC Ar-lein

Cwblhau eich Hyfforddiant Gorfodol

Cwblhau Gwiriadau Addasrwydd

Cwblhau Addasrwydd y Tŷ

Cwblhau eich Cais AGC

Cyfweliad Unigolyn Addas ac Asesiad o'r Safle gan AGC

Ymgeisio am Grant Cychwyn Busnes Gwarchodwr Plant a Phecyn Cychwynnol Ansawdd PACEY

Diweddaru yswiriant cartref ac yswiriant cerbyd

Llongyfarchiadau! Gallwch bellach ddechrau gwarchod plant!

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Hyfforddiant Cyn-gofrestru Hanfodol

Cyn gwneud cais i gofrestru bydd angen i chi ymgymryd â'r hyfforddiant cyn-gofrestru i warchodwyr plant a argymhellir ar gyfer gofal plant yn y cartref yng Nghymru.

- Gwiriwch gyda PACEY Cymru a'ch awdurdod lleol a oes cyllid ar gael ar gyfer hyfforddiant.
- Cyfeiriwch at fframwaith cymhwyster Gofal Cymdeithasol Cymru os oes gennych gymhwyster a dderbynnir eisoes.
- Cysylltwch â PACEY Cymru i gofrestru ar yr hyfforddiant gofal plant yn y cartref yng Nghymru.

Cliciwch ar yr eicon hwn i ddychwelyd i'r brif dudalen

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Polisïau a Gweithdrefnau

Bydd angen i chi nawr ysgrifennu'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol a'ch datganiad o ddiben.

- Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cymorth cyn cofrestru, neu gallech archebu lle ar weminar cyn-gofrestru a ddarperir gan PACEY Cymru.
- Mae Canllawiau Polisi pellach ar gael i Aelodau PACEY.
- Edrychwch ar Gynghorion PACEY Cymru ar gyfer ysgrifennu ac adolygu eich polisïau a gweithdrefnau.
- Mae AGC hefyd yn cynnig arweiniad ar gyfer llunio eich Datganiad o Ddiben.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Creu eich Cyfrif AGC Ar-lein

Eich cam nesaf yw dechrau creu eich Cyfrif AGC Ar-lein. Dechreuwch trwy edrych ar ganllawiau cofrestru AGC a gwybodaeth i ymgeiswyr.

- Crëwch gyfrif gan ddefnyddio AGC Ar-lein.
- Lawrlwythwch gopïau o
  - Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoledig ar gyfer plant hyd at 12 oed.
  - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (diweddarwyd 2016).
  - Y Fframwaith Arolygu a'r Canllaw Arolygu (Atodiad A) ar gyfer gofal plant.

PACEY Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Hyfforddiant Gorfodol

Mae rhywfaint o hyfforddiant gorfodol y bydd angen i chi ei gwblhau cyn y gallwch ddod yn warchodwr plant. Yn aml mae'r cyrsiau hyn yn cael eu darparu gan eich tîm Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn lleol. Mae Hyfforddiant Diogelwch Bwyd Lefel 2 hefyd ar gael trwy PACEY Cymru.

- Bydd angen i chi gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf Pediatrig. Bydd angen cadw hwn yn gyfredol a'i adnewyddu bob 3 blynedd.
- Bydd angen i chi gwblhau Hyfforddiant Diogelu Grŵp A, B ac C. Mae gan PACEY ragor o wybodaeth am ofynion hyfforddiant Diogelu.
- Er nad yw'n orfodol, fe'i hanogir i gwblhau Hyfforddiant Hylendid Bwyd Lefel 2. Mae PACEY yn cynnig cwrs diogelwch a hylendid bwyd ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Gwiriadau Addasrwydd

Cyn i chi gyflwyno eich cais i AGC bydd angen i chi gael rhai gwiriadau addasrwydd. Bydd hyn yn cynnwys gwiriadau DBS, Tystlythyrau Meddygol a Datganiad Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Bydd angen i chi, ac unrhyw un dros 16 oed sy'n byw yn yr eiddo domestig, gwblhau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) manylach. Cysylltwch ag AGC i drefnu hyn. Unwaith y bydd y DBS wedi'i gwblhau, rydym yn argymell eich bod yn cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddaru'r DBS o fewn 30 diwrnod.

- Trefnwch gyda'ch meddyg teulu iddynt lenwi eich ffurflen tystlythyr meddygol. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi yn agos at y dyddiad cyflwyno i sicrhau nad yw wedi dyddio.

- Bydd angen i chi hefyd gwblhau eich Ffurflen Ganiatâd Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Bydd angen i chi roi enwau a chyfeiriadau dau unigolyn i fod yn ganolwyr i chi. Rhaid iddynt allu darparu geirda ynghylch eich cymhwysedd i ofalu am blant o dan 12 oed. Rhaid i un fod yn gyflogwr presennol neu fwyaf diweddar. Ni all eich canolwyr fod yn berthynas i chi. Rhaid i chi nawr gyflwyno'ch canolwyr cyn i chi gyflwyno'ch cais. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich cais nes bod AGC wedi derbyn eich dau ganolwr.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Addasrwydd y Tŷ

Bydd angen i chi sicrhau bod eich cartref yn addas ar gyfer gwarchod plant.

- Bydd gofyn i chi gyflwyno cynllun llawr o'ch cartref gyda mesuriadau. Mae gan AGC ganllawiau ar gyfer cwblhau hyn.
- Bydd gofyn i chi gwblhau Asesiadau Risg ar bob rhan o'ch safle yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer gwarchod plant, y tu fewn a'r tu allan. Mae gan PACEY Cymru gymorth ar gael ar gyfer Ysgrifennu eich Asesiadau Risg.
- Bydd angen i chi hefyd baratoi Asesiad Risg Tân yn unol â'r Canllaw Diogelwch Tân ar gyfer gwarchod plant.
- Mae angen trefnu gwasanaeth llawn a thystysgrif ar gyfer eich boeler/offer gwresogi.
- Byddwch hefyd angen gwiriad llosgwr boncyff a Chaniatâd Landlord os yn berthnasol.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Cwblhau eich Cais AGC

Bydd angen i chi nawr gwblhau eich Cais AGC ar-lein.

- Mae PACEY Cymru yn darparu gweminarau ategol i'ch helpu i gwblhau eich Cais AGC.
- Mae gan AGC gefnogaeth ac arweiniad i'ch helpu i gwblhau eich cais.
- Yn ogystal, mae gan PACEY Cymru ganllawiau i'ch cefnogi.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Cyfweliad Unigolyn Addas ac Asesiad o'r Safle gan AGC

Byddwch chi’n cael ‘Cyfweliad Unigolyn Addas’ i sicrhau eich bod chi’n addas i ofalu am blant a bod eich cartref yn ddiogel ac yn addas i blant. Bydd AGC yn cysylltu â chi i drefnu i arolygydd ymweld â’ch cartref er mwyn cwblhau ‘asesiad o’r safle’.

- Cyfeiriwch hefyd at ganllawiau cofrestru AGC a gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr gan roi sylw arbennig i Atodiad 5 o'r Canllaw i Gofrestru.
- Gall fod yn ddefnyddiol i ddarllen yn ôl trwy'ch cwestiynau addasrwydd a gyflwynwyd gennych gyda'ch cais.

Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Grant Cychwyn Busnes Gwarchodwyr Plant a Phecyn Cychwynnol Ansawdd PACEY

Ar ôl i chi gwblhau eich Archwiliad Cartref, gwnewch gais am y grant sefydlu gwarchodwr plant a Phecyn Cychwynnol Ansawdd PACEY (gan gynnwys Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus Busnes).

- Mae gan PACEY Cymru opsiynau Aelodaeth wahanol ar gael.
- Cysylltwch â'ch Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd am fanylion unrhyw gyllid a chefnogaeth leol.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

# Diweddaru yswiriant cartref ac yswiriant cerbyd

Dywedwch wrth yswiriwr eich cartref eich bod yn rhedeg busnes gwarchod plant o'ch cartref a chysylltwch ag yswiriant eich cerbyd i gynnwys defnydd busnes. Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gynnwys yn eich Aelodaeth PACEY a Phecyn Cychwynnol Ansawdd.

# Llongyfarchiadau ar gofrestru!

Pan fydd yr arolygydd yn hapus fod popeth yn gyflawn a'ch bod chi wedi cadarnhau bod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le, bydd eich cais yn cael ei brosesu a byddwch chi'n derbyn eich tystysgrif cofrestru gan AGC.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.

## Ynglŷn â PACEY

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yw PACEY. Wedi'i ffurfioyn 1977, rydym yn elusen sy'n ymroddedig i gefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gofal o ansawdd uchel a dysgu cynnar i blant a theuluoedd.

Rydym yn darparu hyfforddiant, cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr.

Ein cenhadaeth yw cefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

## Ynglŷn â PACEY Cymru

Mae PACEY Cymru yn rhan annatod o PACEY sy'n darparu gwasanaeth ymrwymedig yng Nghymru i'n haelodau, pob gofalwr plant arall a'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'u hasiantaethau statudol. Mae PACEY Cymru yn derbyn cyllido craidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn i ofal plant yn y cartref gyfrannu at strategaeth, cynlluniau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae cyllido Llywodraeth Cymru yn cynnal llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan PACEY Cymru.

Ers amser maith, mae PACEY Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a gwella ansawdd wrth godi safonau gofal plant ac addysg a ddarperir gan weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru a chynnig ystod o gynnyrch a gwasanaethau hyblyg a luniwyd i ddiwallu anghenion lleol.

pacey Cymru

Copyright PACEY © 2009-2025.